

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Ebrill 3ydd, 2014 yn brydlon am 7-00 y.h. yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Ymweliad swyddogion o Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd.

1. Ymddiheuriadau.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor llawn, Mawrth 6ed, 2014 a chyfarfod Is Bwyllgor safle'r we gyfarfu yr un noson.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth; parcio Penygroes, Llanystumdwy.

2. Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Troadau Gwiga,

Rhoslan.

3. Gwasanaeth Cyfreithiol; Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Ddi Ddosbarth ger Llwyn Celyn, Llanybi.

4. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; bin sbwriel aml bwrpas ger bedd David Lloyd George.

5. Rheoleiddio; Gwasanaeth Amgylcheddol, Llwybrau Cyhoeddus y Gymuned.

6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol;

Materion yn y Gymuned.

6. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y Gymuned.

1. Cais rhif C14/0210/41/AM – Cais amlinellol i ddymchwel yr adeiladau presennol a chodi 13 o dai (ail gyflwyniad yn dilyn gwrthodiad cais C13/0599/41/AM; Site of former Afon Wen Laundry, Afonwen.

7. Gohebiaeth rhwng Mr Iwan Edgar ynglych Adroddiad Asesiad Iaith (Gwynedd a Môn) yng nghyswllt y Cynllun Datblygu, ag Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd.

8. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch Gwasanaeth Meddyg Teulu y tu allan i oriau a materion eraill.

9. Safle'r We.

10. Materion yn y gymuned

1. Llanystumdwy;

a. Cyflwr y lôn rhwng 2, Ty'n Giat a Chae Llo Brith. Llauer o dyllau ond mae un twll yn fawr iawn a pheryglus.

b. Coeden yn y winllan ar y dde rhwng mynedfa Cefn y Maen a Fferm Bron Eifion wedi rhannol syrthio ac yn pwyso ar frigyn coeden wedi pydru yr ochr arall y lôn. Sefyllfa beryglus iawn.

2. Chwilog.

Cyflwr Ffordd y Fynwent.

3. Llanarmon.

Arwyddion i ddynodi eich bod wedi cyrraedd Llanarmon.

11. Materion sydd heb gael ymateb ar ôl gohebu yn eu cylch ers dros ddau fis.

12. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2014 ymlaen.

a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.

b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.

c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.

ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.

d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.

Y Cyngor yn gaeddig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

